**Adroddiad I:** **Y Cyngor i Gyd**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **26 Chwefror 2013**

**Prif Aelod / Swyddog:** **Julian Thompson – Hill / Paul McGrady**

**Awdur yr Adroddiad:** **Paul McGrady / Ken A Jones**

**Teitl: Treth Cyngor 2013/2014 a Materion Cysylltiol**

---

## 1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?

Drwy fabwysiadu cynigion a basiwyd gan y Cyngor yn y cyfarfod cyllideb ar y pumed o Chwefror mae'n angenrheidiol bod y Cyngor yn pasio cynigion eraill mewn ffurf benodol er mwyn galluogi bod y Dreth Cyngor a materion cysylltiol yn gyfreithiol ddilys.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad?

Mae rhaid gwneud penderfyniad er mwyn cymeradwyo'r argymhellion.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Mae'n angenrheidiol i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio, ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i Ogledd Cymru *a'r* Cyngor Trefi/Cymunedau a datgan lefel y Dreth Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol yn 2013-2014.

3.2 Argymhellir fod y swm a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol yn 2013/14, yn unol ag Adran 32 i 34 (1) o'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fod fel Atodiad A i adran 3.

3.3 Argymhellir fod y swm a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol yn 2013/14, yn unol ag Adran 34 (2) i 36 (1) o'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fod fel Atodiad A adran 4.

3.4 Bod swm y Dreth Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol yn 2013/14 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau i'w gael ei ddangos fel Atodiad C.

3.5 Bod y lefel o ddisgownt ar gyfer Dosbarth A, B a C fel y rhagnodir o dan y Rheoliadau'r Dreth Cyngor (Dosbarth Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 wedi'i osod ar sero ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2013/14, 2014/15, 2015/16 a 2016/17 fod yn nhymor y Cyngor gyda'r cafeat fod hwn yn ddibynnol fod dim newidiadau i'r Ddeddfwriaeth neu'r amodau lleol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

O ganlyniad i'r gofynion i gymeradwyo'r penderfyniadau a'r argymhellion yn y modd rhagnodedig mae Cyfeddiannu A yn cynnwys manylion yr adroddiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Os nad yw’r argymhellion yn cael eu cymeradwyo ni fydd yr Awdurdod yn gallu codi gofynion y Dreth Cyngor, ac felly ni fydd yr incwm sydd ei angen i ariannu'r Blaenoriaethau Corfforaethol ar gael.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Y gost o godi a dosbarthu gofynion y Dreth Cyngor, mae’r gost yma yn rhannol yn cael ei osod yn erbyn cyfuno hysbysiad Budd-dal Tai sydd yn gorfod cael eu gyrru yn gyfreithiol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (*Equality Impact Assessment - EqlA)* a wnaed ar y penderfyniad yma? Dylai templed llawn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei rhoi ynghlwm fel atodiad i’r adroddiad.**

Ni ymgymerwyd ag Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb oherwydd bod y penderfyniad yn ofyniad cyfreithiol i alluogi penderfyniad Cyllideb.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi digwydd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae’r lefel o Dreth Cyngor yn dod o’r gyllideb sydd wedi ei osod gan y Cyngor. Datblygwyd y gyllideb yn ystod gwasanaeth sialensiau a fynychwyd gan aelodau a swyddogion a gan nifer o aelodau'r gweithdai. Fe wnaeth y Cyngor llawn gymeradwyo'r gyllideb ar Chwefror y pumed.

**9. Datganiad y Prif Swyddog y Gyllideb**

Mae gan y Cyngor ymrwymiad cyfreithiol i osod Treth Cyngor. Mae’r rheoliadau yn rhagnodol o ran sut y mae gwneud hyn ac mae’r adroddiad yma yn cyfarfod y gofynion.

**10. Pa risgiau sydd ag oes rhywbeth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Y risg ariannol o beidio bod yn gallu casglu incwm y Dreth Cyngor.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Y Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008